



Newyddion Rhosneigr

Ionawr 2011

Dymuniadau gorau i bawb ar gyfer y Flwyddyn Newydd

Goleuadau Rhosneigr

Roedd digwyddiad blynyddol cynnau goleuadau Nadolig Rhosneigr yn llwyddiant ysgubol unwaith eto eleni. Daeth cannoedd o bobl at ei gilydd ar noson oer iawn i wrando ar un o sêr y dyfodol yng Nghymru, Lucy Kelly, yn canu rhai o'i hoff ganeuon, a cherddoriaeth gan The Coffin Dodgers. Cafwyd mwy o oleuadau eleni, ac roedd y cloc coffa wedi ei oleuo am y tro cyntaf erioed. Cafodd y goleuadau eu cynnau am 6.00pm gan Lucy Kelly a'r cynghorydd sydd newydd ei ethol, Richard Dew - wrth i'r eira ddechrau disgyn - gan greu'r noson Nadolig berffaith.



Gweinwyd gwin wedi'i gynhesu a mins peis wedi'r cynnau a rhannwyd bagiau o bethau da gan Siôn Corn ymhlith y nifer dda o blant oedd yn bresennol. Trefnwyd yr achlysur gan Brosiect Rhosneigr.



Gwnaed casgliad o £125 yn ystod y digwyddiad. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Arhosodd nifer o'r busnesau lleol ar agor yn arbennig ar gyfer y noson, gan gynnig gostyngiadau a lluniaeth rhad ac am ddim, tra gweinwyd crempogau newydd eu pobi ar y stryd fawr gan y creperie lleol. Cafodd pawb noson wych ac rydym yn edrych ymlaen at ddigwyddiad mwy trawiadol fyth y flwyddyn nesaf.

Diolch arbennig i bawb a helpodd i osod y goleuadau a'r coed, ac i'r sawl a gyfrannodd ar y noson neu a roddodd win neu fins peis.

Golygfa'r Pwll Badau

Mae gwaith yn awr wedi dechrau ar welliannau i olygfa'r pwll badau yn dilyn oedi oherwydd materion cynllunio. Dylai'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd Ionawr.



Bydd gan yr ardal newydd 4 sedd, sydd wedi eu cyfrannu gan drigolion lleol, lle ar gyfer cadeiriau olwyn a mynediad at y traeth. Bydd yn ychwanegu at wedd y pentref yn ogystal â darparu cyfleuster a fydd yn cael defnydd llawn gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Sicrhawyd cyllid o £28,000, drwy gynllun



gwella amgylchedd Trefi a Phentrefi, cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Datblygwyd y prosiect hwn gan Brosiect Rhosneigr ynghyd â'r Cyngor Cymuned i greu'r cyfleuster hwn ar gyfer y pentref.

Parti Nadolig y WI



Cynhaliwyd parti Nadolig Sefydliad y Merched ddydd Llun, 13 Rhagfyr, yn neuadd y pentref gyda pherfformiad, wedi ei seilio'n fras ar yr Hugu Goch Fach, gan y grŵp drama. Daeth dros 60 o bobl i weld y perfformiad hwyliog, a ysgrifennwyd gan Jean Roberts-Cox. Yn dilyn hynny, cafodd yr holl westeion de prynhawn hyfryd a baratowyd gan aelodau Sefydliad y Merched.


Tynnwyd raffl, gyda llawer o'r gwobrau yn gyfraniadau gan aelodau Sefydliad y Merched, ac fe gododd hon £53 tuag at y gronfa. Mae croeso bob amser i aelodau newydd. Ceir cyfarfod ar ail ddydd Llun pob mis am 2.30 yn neuadd y pentref – cysylltwch â Louise Jones ar 811292.

Llyfrgell Rhosneigr – wedi'i hachub?

Yng nghyfarfod y cyngor ddydd Mawrth cytunwyd y byddid yn cadw'r llyfrgell (yn amodol ar gadarnhad gan bwyllgor gwaith y Cyngor) gan ehangu'r oriau, a gwirfoddolwyr yn gweithio yn ystod yr oriau hynny. Mae hwn yn newydd gwych i Rosneigr ac i bawb a gynorthwyodd yn yr ymgyrch a drefnwyd i achub y llyfrgell. Ond mae angen gwaith o hyd i ganfod pa ran fydd gan y gymuned o safbwynt rhedeg y lle. Ceir mwy o newyddion cyn gynted ag y bydd ar gael.

Cefnogwch y llyfrgell drwy fynychu darlith flynyddol gyntaf WD Owen yn neuadd y pentref.

Nos Lun, 17 Ionawr am 6.30



Traddodir y ddarlith gan yr awdur, y golygydd, y darlithydd a'r darlledwr adnabyddus, yr Athro David Crystal.

Mynediad £5. Gweinir lluniaeth am 7.15 – gwnewch bob ymdrech i fynychu'r achlysur.

Cefnogwch eich llyfrgell

Gwasanaeth Carolau'r Nadolig

Cynhaliwyd gwasanaeth carolau Rhosneigr ddydd Mawrth, 14 Rhagfyr, yng nghapel Paran, a chafwyd perfformiadau rhagorol gan gôr ysgol Rhosneigr a chôr Sant Maelog, heb anghofio'r carolau a ganwyd gan y gynulleidfa fawr.

Roedd yn noson lwyddiannus arall, ac yn gyfle i ddangos yr ysbryd cymunedol gwych sydd yn y pentref.

Unwaith eto, darparwyd gwin wedi'i gynhesu a mins peis yn rhad ac am ddim, a threfnwyd y digwyddiad cyfan gan Brosiect Rhosneigr – llawer o ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr achlysur.

Cynllun ar gyfer Rhosneigr

Cyflwynwyd y cynllun arfaethedig ar gyfer Rhosneigr, a baratowyd gan Jon Rowland Urban Design, Yellow Book a Lavigne Lonsdale ar gyfer Cyngor Ynys Môn, yn neuadd y pentref ddydd Sadwrn, 11 Rhagfyr. Roedd llawer o bobl yn bresennol, ac roedd modd iddynt roi eu hymateb a'u barn i'r ymgynghorwyr ac i gynrychiolwyr y cyngor.

Bwriad y cyflwyniad oedd rhoi gwybod i ni am y ddogfen gynnig sydd wedi ei chynhyrchu yn dilyn ymgynghoriadau mewn cyfarfodydd blaenorol a gyda chynrychiolwyr gwahanol grwpiau yn y pentref.

Gallai'r cynigion hyn gael effaith arwyddocaol ar y pentref, ac os oes gennych unrhyw farn arnynt dylech gyfeirio'r safbwyntiau hynny at Christian Branch yn y cyngor neu

e-bostio: coastalproject@anglesey.gov.uk